



Llywodraeth Cymru

Crynodeb Gweithredol

Gweithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Rheoliadau a chanllawiau statudol mewn perthynas
â Rhan 7 (Diogelu) o Ddeddf Gwasanaethau
Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn sail i fframwaith statudol newydd ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Mae Gweinidogion wedi egluro eu bod yn dymuno i elfennau craidd y fframwaith hwn fod yn eu lle ar gyfer mis Ebrill 2016, pan fydd y Ddeddf yn cael ei gweithredu.

Bydd y fframwaith yn cynnwys tair prif elfen, sef y Ddeddf ei hun, rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, a chodau ymarfer/canllawiau statudol. Bydd y tair elfen hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio'r fframwaith y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn gweithredu ynddo o fis Ebrill 2016.

Y broses o wneud codau a rheoliadau o dan y Ddeddf

Mae'r rheoliadau, y codau a'r canllawiau statudol wedi cael eu datblygu drwy broses ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ac maent bellach yn cael eu cyflwyno i randdeiliaid ledled Cymru er mwyn cael eu cyfraniad.

Bydd yr ymgynghoriad ar y Rheoliadau a'u gosod yn cael ei wneud o dan y Ddeddf a'i gynnal mewn dwy gyfres yn bennaf. Bydd y gyfres gyntaf ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos a fydd yn dechrau ym mis Tachwedd 2014. Disgwylir y bydd ymgynghoriad yr ail gyfres yn cael ei gynnal rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2015. Y bwriad yw gosod y rheoliadau hyn gerbron y Cynulliad ym mis Mai 2015 er mwyn rhoi cymaint o amser â phosibl i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol addasu i'r gofynion newydd cyn iddynt gael eu gweithredu ar 6 Ebrill 2016.

Yr hyn y mae'r gyfres gyntaf o reoliadau a chodau ymarfer yn ei gwmpasu

Mae'r gyfres gyntaf yn ymdrin â darpariaethau craidd yn ymwneud â chymhwysra, asesu, cynllunio gofal a chymorth a thaliadau uniongyrchol yn Rhannau 2 i 4 o'r Ddeddf, ynghyd â darpariaethau yn Rhan 7, yn ymwneud â diogelu, a rhan 11 yn ymwneud â phreswylfa arferol ac anghydfodau cysylltiedig.

Cwmpas y canllawiau statudol a'r rheoliadau mewn perthynas â Rhan 7 o'r Ddeddf

Diogelu

Mae'r rheoliadau a'r canllawiau yn cryfhau'r trefniadau presennol ar gyfer plant ac yn cyflwyno trefniadau newydd i oedolion sy'n wynebu risg.

Diogelu plant

Mewn perthynas â phlant, cyflwynir dyletswydd i adrodd ar gyfer partneriaid perthnasol (yr awdurdod lleol, yr heddlu, darparwyr gwasanaethau prawf, byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG), ac mae'n ymestyn i Dimau Troseddwyr Ifanc ar gyfer adrodd yn benodol am blant sy'n wynebu risg. Rydym yn rhagweld bod pwyntiau cyswllt clir rhwng y partneriaid perthnasol yn ardal y bwrdd Diogelu a rhwng partneriaid perthnasol ac awdurdodau lleol mewn ardaloedd Byrddau Diogelu eraill.

Diogelu oedolion – dyletswydd i adrodd

Mewn perthynas ag oedolion, cyflwynir dyletswydd lle mae y mae'n rhaid i bartner perthnasol adrodd i awdurdod lleol os bydd ganddo sail resymol dros grefu bod oedolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg. Mae'r cynigion hyn yn adlewyrchu'r rhai ar gyfer plant o ran ein bod yn rhagweld cyfathrebu clir rhwng partneriaid perthnasol yn ardal y Bwrdd Diogelu ac mewn ardaloedd awdurdodau lleol eraill y tu allan i ardal y Bwrdd Diogelu.

Gorchmynion amddiffyn a chynorthwyo oedolion

Mae cyflwyno Gorchmyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolyn yn cynorthwyo gweithwyr proffesiynol i gael mynediad i eiddo er mwyn gwneud asesiad i benderfynu a yw oedolyn yr honnir ei fod yn wynebu risg yn gwneud penderfyniadau o'i wirfodd ac a oes angen unrhyw gamau gweithredu.

Byrddau diogelu lleol

Bydd strwythurau newydd ar gyfer Byrddau Diogelu yn gweld y Byrddau Diogelu Plant Lleol statudol blaenorol a'r Pwyllgorau Ardal Amddiffyn Oedolion anstatudol yn gweithredu mewn ardaloedd awdurdodau lleol unigol yn cael eu hailsefydlu ar ôl troed gwasanaethau cyhoeddus. Dônt yn chwe Bwrdd Diogelu Plant a chwe Bwrdd Diogelu Oedolion.

Bydd y swyddogaethau a nodir mewn rheoliadau yn arwain Byrddau o ran sut y mae'n rhaid iddynt gyflawni eu hamcanion yn y Ddeddf i ddiogelu ac

amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg o gam-drin ac esgeulustod. Bydd darpariaeth newydd ar gyfer trefniadau cyllido Byrddau Diogelu yn cynorthwyo o ran cyflawni canlyniadau'r Bwrdd, a bydd rheoliadau penodol ynglŷn â chyfranogiad defnyddiwr yn sicrhau bod y rhai y mae swyddogaethau'r Bwrdd Diogelu yn effeithio arnynt yn rhan o'i waith.

Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol

Bydd sefydlu'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn galluogi Gweinidogion Cymru i gomisiynu a sicrhau trosolwg o ddiogelu yng Nghymru gydag argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer gwella yn sail iddo. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol hefyd yn rhoi cyngor a chymorth i Fyrddau Diogelu gyda'r bwriad o sicrhau gwelliant a chynyddu cysondeb yng Nghymru.